# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**19.00 Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Medi 9fed 2025**

## Cofnodion

1. **Presennol:**
   Gwilym Jones (Cadeirydd), Trefor Jones, Carol Hayes, Dr Melfyn Edwards, Karena Owens, Alwyn Gruffydd, Michael Roberts, Edward Naish, Glenda Murray. Elfyn Lewis (Clerc)
2. **Ymddiheuriadau:**
   Jeremy Davies, Llywelyn Rhys
3. **Absennol:**
   Neb.

4. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion :-**

a) Cyfarfod Llawn Gorffennaf 2025.

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir. Y Cyng. Melfyn Edwards yn cynnig. Y Cyng. Michael Roberts yn eilio. Derbyniwyd yn unfrydol.

b) Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ac Eiddo Gorffennaf 2025

Derbyniwyd bod y cofnodion yn gywir. Y Cyng. Carol Hayes yn cynnig. Y Cyng. Karena Owens yn eilio. Derbyniwyd yn unfrydol.

5. **Adroddiad y Cadeirydd:**
   Daeth cadarnhad bod y Swyddfa Bost am symud yn ystod Mis Tachwedd o'i safle bresenol i'r adeilad dros y ffordd lle mae Siop Davies yn awr.
   Roedd busnesau y dref wedi adrodd eu bod wedi cael Haf da ond bod hi ddim gystal yn ystod Mis Gorffennaf ac Awst.
   Roedd y llechi gyda cherddi Eifion Wyn wedi eu gosod yn y Stryd Fawr ger y Parc ac wedi cael ymateb da gan drigolion y dref. Gofynwyd i'r Clarc sicrhau bod Tim Tacluso yn eu glanhau yn rheolaidd.

6. **Adroddiad y Clerc:**

1. Cae Pawb.
   Ni ddaeth neb ymlaen i fod yn Gadeirydd nac Ysgrifennydd/es o Gymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb yn y Cyfarfod Blynyddol. Cynhelir cyfarfod arall i geisio datrus y mater o fewn mis.
   Torri Coed ar Cyt Bach – ffos sydd yn ymylu Cae Pawb. Cyfoeth Naturiol Cymru angan i berchennog Cae Pawb dorri y coed sydd ar lan Y Cyt Bach. A hefyd trin y Japanese Knotweed – Rhiwbob Gwyllt.
   Y Clerc i drefnu bod y gwaith yn mynd allan i tendar.

DRAFT

Mae dau gwyn wedi cyrraedd parthed tannau yn Cae Pawb. Mae tipyn o ddryswch parthed yr hawl sydd gan y garddwyr i wneud tannau bach i losgi chwyn ar y rhandiroedd. Mae'r rhan fwyaf o'r garddwyr yn gwneud tannau yn gyfrifol – mewn drymiau metal, pan nad oes gwynt, dim llosgi plastig ac ati.
Penderfynwyd gofyn i Gymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb drafod rheolau Cae Pawb a gyrru unrhyw newidiadau y maent yn argymell i'r Cyngor Tref i'w trafod.

2. Bryn Coffa.
   Mi wnaeth Y Clerc gyfarfod a tri torrwr coed i gael dyfynbris ar docio y coed cyn Sul y Cofio.
   Pearsons - £614
   Coed Nant - £600
   Giles Trees - £1040
   Angen dewis torrwr coed i wneud y gwaith.
   Y gwaith i ddigwydd ddechrau Mis Hydref.
   Penderfynu derbyn dyfynbris Pearson's. Y Clerc i gysylltu a'r cwmni i drefnu'r gwaith.

   Bydd Y Clerc yn mynd i gyfarfod aelodau y Lleng Brydeinig ym Mhorthmadog ar Fedi 10fed i drafod trefniadau Sul y Cofio. Y Clerc sydd yn gyfrifol am sicrhau bod gorchymyn cau y lon yn mynd i Gyngor Gwynedd a bod yr heddlu yn ymwybodol bod angen cau Stryd Fawr am gyfnod er mwyn yr orymdaith.

   Mae aelodau o'r Lleng Brydeinig am geisio datrys y broblem gyda'r sain ar Bryn Coffa yn ystod y seremoni. Cael generator distaw ac ati…

   Codwyd pryder am pa mor saff yw'r bocs ar waelod grisiau Bryn Coffa. Nid bocs electrig ydio.

3. Cronfa Gwynedd Ni
   Cais Cyngor Tre Porthmadog wedi cael ei dderbyn yn amodol.
   Bydd angen penderfynu ar safleoedd y meinciau a gofyn am ganiatad gan Cyngor Gwynedd i'w gosod cyn derbyn y cais yn llawn.
   Penderfynu bod y Cynghorwyr yn cyfarfod i gerdded Y Stryd Fawr. Cyfarfod wrth Y Steshon 10 o'r gloch Medi 27ain.

4. Llechi cerddi Eifion Wyn yn y Parc.
   Cytunwyd bod y gwaith yn arbennig a bod y fenter yn un llwyddiannus.
   Codwyd pryder bod y llechi yn cael eu baeddu gan adar yn clwydo. Mae Tim Tacluso Cyngor Gwynedd am lanhau y llechi yn achlysurol.

5. Trefniadau Nadolig:
   Bydd y Clerc gyda chyd-weithrediad y cynghorwyr yn dechrau ar y planiau o drefnu y trefniadau Nadolig yn ystod yr wythnosau nesa.
   Cytunwyd i fwrw ymlaen gyda cael coed Nadolig naturiol am eleni a trefnu cael coed goleuadau artiffisial blwyddyn nesa.

6. Lloches bws Steshon. Diweddariad.
   Cafwyd difrod arall i'r lloches bws wrth y Steshon yn ystod yr Haf.
   Y Clerc i drefnu bod gwaith yn cael ei wneud i adnewyddu y Lloches. Y Clerc hefyd i gysylltu gyda'r Cwmni Yswiriant i drafod y difron a wnaethpwyd.

   Rhagwelir bydd o bosib difrod yn digwydd eto i'r lloches. Efallai bydd angen cael panel perspex neu rywbeth anoddach i'w dorri yn y dyfodol.

DRAFT

7. Siambr Fasnach.
   Cyfarfod wedi ei drefnu yn Y Ganolfan am 6 o'r gloch ar Hydref 7fed. Mae'r Cadeirydd yn cyd-weithio gyda Cyngor Gwynedd. Mae taflenni wedi eu printio a bydd angan eu rhannu o gwmpas busnesau y dref a trefnu cyhoeddusrwydd ar y cyfryngau cymdeithasol cyn y cyfarfod er mwyn ennyn diddordeb.

8. Cae Chwarae Bodawen – Y grid Cenedlaethol. Diweddariad.
   Mae Y Grid Cenedlaethol am wneud archwiliad 'ar droed' o'r safle yn ystod yr wythnosau nesa.
   Ni fydd gwaith yn cael ei wneud ar y safle tan blwyddyn nesa.
   G.L.Jones am wneud archwiliad o'r offer yn y parc chwarae yn fuan er mwyn sicrhau eu bod yn saff i'w defnyddio.

**7. Datgan diddordeb:**
Dim.

**8. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhif Cais/App Ref: C25/0546/44/LL - Seaview Cafe, Seaview Cafe, 4a Rhes Gwelfor, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TR

Gwrthwynebu y balconi ar y llawr cyntaf ar y tu blaen i'r adeilad.

**9. MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF**
Penderfynwyd derbyn y Polisi Cydraddoldeb. Y Clerc i'w roi ar wefan Y Cyngor Tre.
Diolchwyd i Carol Hayes ac i Linda Edwards am eu gwaith.

**10. MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

Y Cyng. Gwilym Jones - Cynnig **g**ofyn i Cyngor Gwynedd " Pwy sydd yn berchennog ar y Maes Parcio Pen Cei? Os na'r Cyngor yw'r perchennog, fyddai 'n bosib rhoi rhwystr ar y fynedfa fel sydd ar y ffordd tŷ cefn i 'r dafarn"

Tynnwyd y cynnig yn ol. Cafwyd ateb i'r ymholiad gan Cyngor Gwynedd cyn y cyfarfod. Mae'r maes parcio yn rhan o'r briffordd yn ol Cyngor Gwynedd.

11. **Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Hydref 14eg 2025 = Hydref 4ydd 2025, (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor").*

**Glenda Murray. "Cynnig bod Y Clerc yn gwahodd Bryn Jones o Adran Morwrol Cyngor Gwynedd i gyfarfod Mis Hydref i drafod parcio dros nos ar Draeth Creigddu, Morfa Bychan".**

**Dr. Melfyn Edwards "Cynnig trafod Llwybr Cae'r Llety".**

DRAFT

12. **Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb**
Stephen Williams (Addysg) Mehefin 22, 2025. Ebost yn cynnig iddo ddod i gyfarfod Y Cyngor Tre i drafod sefydlu Clwb Ieuenctid.
Y Clerc i ail-gysylltu ag ef.

13. **GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyngor Gwynedd | Hafodydd Borth-y-Gest. Diweddariad.<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 2 | Pauline Williams | Cyfarfod Blynyddol Y Ganolfan.<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 3 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyt Bach Cae Pawb<br>Y Clerc i gyd-weithio gyda CNC. |
| 4 | Heddlu Gogledd Cymru | Lloches Bws Wrth y Steshon<br>Y Clerc i fwrw ymlaen gyda trefnu gwaith adnewyddu y lloches. Y Clerc i gysylltu gyda cwmni yswiriant. |
| 5 | Alys Rees Morgan | Cronfa Gwynedd Ni – llythyr cynnig amodol<br>Trefnwyd i'r cynghorwyr i gerdded Stryd Fawr, Porthmadog ar Hydref 27ain i benderfynu ar safle i'r meinciau. |
| 6 | Carol Hayes | Polisi Cydraddoldeb<br>Derbynwyd. Gweler uchod. |
| 7 | Clwb Moduro Harlech | Rali Meirion<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 8 | Swyddfa Bost | Diweddariad am Swyddfa Bost Porthmadog<br>Derbyn y wybodaeth. |
| 9 | Aled Griffith | Taith Nadoligaidd Tractorau 2025<br>Derbyn y wybodaeth. |

14. **MATERION ARIANNOL:**

**Taliadau Awst 2025:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Gorffennaf 2025 | £60-67 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Gorffennaf 2025 | £1,408.58 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Gorffennaf 2025 | £352.14 |
| 4 | GDPR | Diogelu Data 2025-2026 | £52.00 |
| 5 | Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws | £215.11 |
| 6 | Xerox Finance | Llogi llungopïwr | £104.40 |

**Derbyniadau:**

| | | |
|---|---|---|
| H.S.B.C. | Llog Banc Gorffennaf Awst 2025 | £2.28 |

**Biliau i'w talu:**

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Clerc | Llinell ffôn a Wê Gorffennaf 2025 | £60-67 |
| 2 | Clerc | Cyflog Clerc Gorffennaf 2025 | £1,408.58 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Gorffennaf 2025 | £352.14 |
| 4 | GDPR | Diogelu Data 2025-2026 | £52.00 |
| 5 | Criccieth Cleaning | Glanhau llochesi bws | £215.11 |
| 6 | Xerox Finance | Llogi llungopïwr | £104.40 |

Cymeradwywyd y taliadau. Cynnig. Cyng. Dr. Melfyn Edwards, Cyng. Alwyn Gruffydd yn eilio.
(Mae copi o bob siec ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol).

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05 y.h.

Elfyn Lewis
( Clerc )

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*

DRAFT